Pembrokeshire Public Services Board

Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Sir Benfro

**COFNODION BWRDD GWASANAETHAU CYHOEDDUS SIR BENFRO**
**Dydd Mawrth, 25 Ebrill 2023, am 10.00am (cyfarfod Microsoft Teams)**

**Yn bresennol:**

| | |
|---|---|
| Y Cyng. Neil Prior | Cyngor Sir Penfro (Cadeirydd) |
| Phil Kloer | Cyfarwyddwr Meddygol Gweithredol, Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda (Is-gadeirydd) |
| Caroline Drayton | Rheolwr Gweithrediadau, CNC |
| Richard Brown | Prif Weithredwr Cynorthwyol, Cyngor Sir Penfro |
| David Evans | Pennaeth Cynorthwyol, Coleg Sir Benfro |
| Mydrian Harries | Prif Swyddog Cynorthwyol – Cyfarwyddwr Adnoddau, Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru |
| Iwan Thomas | Prif Swyddog Gweithredol, PLANED |
| Tegryn Jones | Prif Weithredwr, Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro |
| Sue Leonard | Prif Swyddog, Cymdeithas Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Benfro (PAVS) |
| Y Cyng. Elwyn Williams | Cadeirydd Awdurdod Tân Canolbarth a Gorllewin Cymru |
| John Thomas | Is-Gadeirydd, Un Llais Cymru |
| John Evans | Cyfarwyddwr Sirol, Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda |
| James White | Pennaeth Ymgysylltu, Perfformiad a Chymuned, Cyngor Sir Penfro |
| Gemma Baker | Swyddog Polisi a Pherfformiad, Cyngor Sir Penfro |
| Claire Germain | Dirprwy Gyfarwyddwr Trawsnewid Llywodraeth Leol a Phartneriaethau, Llywodraeth Cymru (cyrhaeddodd am 10.45am) |

*<u>Cymorth/Ysgrifenyddiaeth</u>*

| | |
|---|---|
| Nick Evans | Rheolwr Polisi a Phartneriaethau Corfforaethol, Cyngor Sir Penfro |
| Lynne Richards | Swyddog Partneriaethau Corfforaethol, Cyngor Sir Penfro |
| Amy Richmond-Jones | Rheolwr Ymgysylltu, Cynllunio a Pherfformiad, Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru |
| Hassim Ganiyu | Swyddog Ymgysylltu, Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda |

**<u>Ymddiheuriadau</u>**

| | |
|---|---|
| Will Bramble | Prif Weithredwr, Cyngor Sir Penfro |
| Alison Perry | Cyfarwyddwr Comisiynu, Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd |
| Craig Templeton | Heddlu Dyfed-Powys |
| Barry Walters | Pennaeth, Coleg Sir Benfro |
| Anna Malloy | Rheolwr Ymgysylltu â Rhanddeiliaid a Chyfathrebu, Awdurdod Porthladd Aberdaugleddau |

| | |
|---|---|
| Christine Harley | Pennaeth Uned Cyflawni Lleol Heddlu Dyfed Powys, y Gwasanaeth Prawf |
| Y Cyng. David Simpson | Arweinydd, Cyngor Sir Penfro |
| Darren Mutter | Cyfarwyddwr Gofal Cymdeithasol Dros Dro, Cyngor Sir Penfro |
| Tom Sawyer | Prif Swyddog Gweithredol, Awdurdod Porthladd Aberdaugleddau |
| Jo McCarthy | Dirprwy Gyfarwyddwr Iechyd Cyhoeddus, Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda |
| Kelvin Barlow | Rheolwr Rhaglen Partneriaeth Ranbarthol, Partneriaeth Gofal Gorllewin Cymru |

Dechreuodd y cyfarfod am 10.05am

**1. Croeso ac ymddiheuriadau**

Croesawodd NP bawb i'r cyfarfod. Derbyniwyd ymddiheuriadau gan y rhai a restrir uchod.

**2. Cofnodion o'r cyfarfod diwethaf / cofnod camau gweithredu**

Cadarnhawyd bod cofnodion y cyfarfod diwethaf a gynhaliwyd ar 7 Mawrth 2023 yn gofnod cywir. Roedd yr holl gamau gweithredu o'r cyfarfod wedi'u cwblhau.

**3. Cymeradwyo'r Cynllun Llesiant Terfynol i'w gyhoeddi /**
**4. Trefniadau cyflwyno, monitro ac adrodd y cynllun llesiant**

Awgrymodd NE y dylid trafod Eitemau 3 a 4 ar yr agenda gyda'i gilydd, gan y byddai Eitem 4 yn cynnwys trafodaethau ynghylch ymgysylltu, a chan fod rôl y Grŵp Ymgysylltu yn cael ei hadlewyrchu ar hyn o bryd yn y Cynllun mae'n bosibl y bydd unrhyw newidiadau i hyn yn gofyn am rai mân newidiadau ansylweddol i'r Cynllun cyn iddo gael ei gymeradwyo.

Dechreuodd NP drwy ddarparu trosolwg o'r strwythur cyflenwi arfaethedig yn Atodiad A, a godwyd ac a drafodwyd yn y cyfarfod diwethaf, a thynnodd sylw at y cwestiynau canlynol yn y papur i'w trafod;

- Rôl a lleoliad ymgysylltu o fewn y strwythur cyflenwi – cadw'r Grŵp Ymgysylltu Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus presennol, neu drosglwyddo cyfrifoldeb am ymgysylltu a chyd-gynhyrchu i bob grŵp prosiect a grwpiau cefnogi cysylltiedig?
- Sut y bydd gweithgareddau prosiect yn cael eu hadrodd i'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus – sesiynau 'sbotolau' ym mhob cyfarfod a diweddariadau ysgrifenedig ar gynnydd?
- Sut y bydd arweinwyr prosiect yn cael eu dwyn i gyfrif lle na cheir cynnydd?
- Sut y bydd gweithgarwch trawsbynciol yn cael ei nodi a sut y caiff y ddarpariaeth ei chydgysylltu – drwy grwpiau presennol? Grwpiau newydd?

Agorodd y drafodaeth gyda'r cwestiwn ynghylch ymgysylltu, a ph'un a ddylid cael grŵp ymgysylltu trosfwaol (Grŵp Ymgysylltu Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus), neu p'un a ddylai ymgysylltu gael ei brif ffrydio o fewn pob un o'r grwpiau prosiect Arian.

Mynegodd SL ei dymuniad i weld rhwydwaith ehangach o ymarferwyr ymgysylltu yn cael ei sefydlu, yn eistedd y tu allan i strwythur y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus ac yn cynnwys partneriaid ehangach sydd â diddordeb mewn ymgysylltu a chynnwys, y gellid ei ddefnyddio

fel adnodd ar gyfer y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus. Dywedodd fod ymgysylltu eisoes wedi'i gynnwys yng nghynlluniau cyflenwi'r grwpiau arian. Nododd hefyd nad oedd y Grŵp Ymgysylltu wedi bod yn arbennig o effeithiol gan fod yr aelodau yn rhy brysur.

Mynegodd PK ei gymeradwyaeth i'r strwythur ac awgrymodd y dylai ymgysylltu fod yn thema ar draws y grwpiau efydd ac arian gyda grŵp trosfwaol o bosibl. Nododd hefyd fod angen mwy o fanylion ynghylch canlyniadau ac allbynnau ar gyfer pob un o feysydd y prosiect o ran sicrhau atebolrwydd.

Darparodd NP yr wybodaeth ddiweddaraf am weithgarwch y prosiect o dan y gwaith *Cryfhau Cymunedau*. Roedd y grŵp wedi cyfarfod ar 21 Ebrill a chytunwyd i drefnu cyfarfod ym mis Mehefin i edrych ar yr hyn sy'n digwydd ar hyn o bryd yng Nghyngor Sir Penfro o ran gweithio gyda chymunedau, trafod datblygu rôl llysgennad cymunedol a chynnal ymarfer mapio i gynorthwyo gydag agwedd ymgysylltu'r prosiect. Yna amlinellodd sut yr oedd yn rhagweld y byddai'r sesiynau sbotolau yn gweithio. Byddai arweinwyr prosiect yn cael y cyfle i roi trosolwg byr o weithgarwch a byddai partneriaid y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn cael cyfle i ofyn cwestiynau a nodi materion. Byddai hyn yn un rhan o adrodd ar gyflenwi, gyda gofyn hefyd i arweinwyr prosiect gynhyrchu adroddiad ysgrifenedig un dudalen fer ar gyfer pob cyfarfod, yn amlinellu pennawd a materion. Byddai NP yn cyfarfod ar wahân ag NE a LR i drafod fformat.

Gan symud ymlaen at y Cynllun Llesiant, cytunodd yr holl bartneriaid a oedd yn bresennol eu bod yn hapus i gymeradwyo Cynllun y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus ar gyfer 2023-28 ar gyfer ei gyhoeddi.

## 5. Ymgynghoriad ynglŷn â safle a thir ysbyty newydd Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda

Rhoddodd ER gyflwyniad byr ar ymgynghoriad Hywel Dda ynghylch lleoliad ysbyty newydd Gorllewin Cymru, a fyddai’n dod i ben ar 19 Mai.

Gofynnodd MH sut fath o ymateb gafwyd i'r ymgynghoriad yn Sir Benfro hyd yma. Dywedodd ER fod cyfanswm o 300 o ymatebion wedi bod i holiadur yr ymgynghoriad hyd yma, ac yn Sir Benfro roedd tua 50 o bobl wedi mynychu’r digwyddiad ymgynghori yn Hwlffordd, ac roedd digwyddiadau hefyd i’w cynnal yn Aberdaugleddau ac Abergwaun.

Gofynnodd SL a oedd materion yn ymwneud â defnyddio mannau gwyrdd o amgylch y safle wedi cael eu hystyried, ynghyd â thrafnidiaeth gymunedol a phwyslais cynyddol ar bwyntiau mynediad gwasanaethau digidol i atal teithio diangen. Dywedodd ER y byddai'r mannau cyhoeddus o amgylch yr ysbyty yn cael eu dylunio a'u rheoli i wella iechyd a llesiant, a byddai strategaeth trafnidiaeth gymunedol yn cael ei datblygu. Dywedodd PK fod yr ysbyty newydd yn rhan o symudiad tuag at GIG sy’n canolbwyntio mwy ar ofal sylfaenol cymunedol gyda mwy o bwyslais ar ddigidol.

Nododd CD fod un o’r safleoedd arfaethedig yn rhannol ar dir sy’n agored i lifogydd a byddai’n annog Hywel Dda i feddwl yn ofalus am hyn yng ngoleuni’r costau sy’n gysylltiedig ag asesiadau canlyniadau llifogydd a’r canlyniadau posibl y gallai datblygu’r safle ei gael yn is lawr yr afon. Nododd hefyd yr angen posibl am asesiad amgylcheddol strategol yn y dyfodol.

Gofynnodd DE p’un a oedd rhagfynegiadau costau ychwanegol wedi'u cynnwys fel rhan o'r ymgynghoriad, yng ngoleuni costau uwch deunyddiau adeiladu a chostau datblygu. Nododd

ER fod y Bwrdd Iechyd yn y broses o ystyried hyn, er y byddai'r costau hyn yn debygol o fod wedi newid eto erbyn i'r ysbyty gael ei adeiladu.

Yna gofynnodd DT beth oedd y broses ar gyfer archwilio’r safle ac a oedd unrhyw strwythurau hanesyddol ar unrhyw un o'r safleoedd a allai oedi datblygiad. Dywedodd ER bod adolygiad bwrdd gwaith wedi'i gynnal ond nad oedd unrhyw bryderon cychwynnol wedi'u nodi.

Diolchodd PK i NP am y cyfle i gyflwyno i'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus ac am y sylwadau a wnaed gan yr aelodau.

## 6. Diweddariad Strategaeth Tlodi’r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus

Dechreuodd JW drwy nodi bod presenoldeb yng nghyfarfodydd y grŵp wedi bod yn dda. Roedd y pwyslais cychwynnol wedi bod ar waith cysylltiedig â'r argyfwng costau byw ond roedd y grŵp bellach yn symud tuag at ddatblygu a chyflenwi'r strategaeth.

Roedd rhai o’r prif faterion a nodwyd yng ngwaith Cymdeithas Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Benfro gyda phobl yr effeithir arnynt gan dlodi wedi’u nodi yn y cwmwl geiriau ar dudalen 18 o’r strategaeth ddrafft ac roedd y rhain yn debyg i faterion ledled Cymru. Fel sir wledig roedd ynysigrwydd gwledig a diffyg mynediad at wasanaethau yn faterion penodol, ond yn benodol roedd y prif faterion yn Sir Benfro yn gysylltiedig â diffyg mynediad at ofal plant fforddiadwy, gwaith ansicr/rhan-amser/cyflog isel/tymhorol a phobl yn mynd heb fwyd, yn enwedig y cynnydd yn nifer y plant sy'n cyrraedd yr ysgol yn llwglyd oherwydd nad ydynt efallai wedi bwyta'r noson gynt. Nododd JW fod rhai achosion o’r fath wedi bodoli erioed, ond roedd bellach yn berthnasol i grŵp llawer ehangach ac o fewn y grŵp hwn roedd unigolion na fyddai o reidrwydd yn gymwys i gael Prydau Ysgol am Ddim.

Roedd adroddiad ar waith Cadw'n Gynnes, Cadw'n Iach yn cael ei baratoi gan Cymdeithas Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Benfro a byddai hyn yn ychwanegu at gynnwys y strategaeth yn Adran 5 a byddai gwybodaeth bellach yn cael ei hychwanegu gan sefydliadau nad oedd eto wedi ymateb i'r cais am wybodaeth. Cododd JW yr awgrym a wnaed gan y grŵp tlodi i gynnal digwyddiad lansio ar gyfer y strategaeth a chynhadledd flynyddol i gynnal y ffocws.

Gofynnodd TJ p’un a fyddai'n well i'r materion sy'n ymwneud â bywyd gwledig gael eu cynnwys yn y ddogfen gan nad oeddent yn cael eu cynrychioli'n arbennig o dda yn y drafft. Dywedodd hefyd ei fod o blaid cynnal cynhadledd flynyddol, ond nid digwyddiad lansio. Cytunodd GB fod materion gwledig yn cael eu tangynrychioli, fodd bynnag, nid oedd hyn wedi'i godi fel mater penodol gyda thrigolion lleol sy'n cymryd rhan yn y gwaith profiad bywyd o dan arweiniad Cymdeithas Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Benfro.

Ynglŷn â'r gwaith hwn, dywedodd SL mai'r hyn sydd wedi bod yn fwyaf trawiadol iddi oedd y ffaith nad oedd y bobl ifanc y siaradwyd â nhw fel rhan o'r ymchwil yn gweld dyfodol iddynt eu hunain yn y sir. Roedd yna hefyd rai pobl gyda dwy neu hyd yn oed tair swydd a oedd yn dal i fethu cael dau ben llinyn ynghyd ac oherwydd nad oeddent yn gallu cael mynediad at ofal plant am ddim neu Brydau Ysgol am Ddim roeddent yn cwestiynu gwerth gweithio. Nododd SL hefyd fod rhai o'r bobl a gymerodd ran yn yr ymchwil yn awyddus i barhau i fod yn rhan o'r broses a allai ddarparu gwybodaeth ddefnyddiol yn y tymor hir am lwyddiant neu fethiant gweithgaredd y grwpiau.

Dywedodd PK y byddai'n cysylltu â chydweithwyr ym maes iechyd y cyhoedd i wneud cysylltiadau â'r grŵp ynghylch anghydraddoldebau iechyd a chytunodd ag SL ynghylch

gwerth sicrhau bod y rhai a oedd wedi bod yn rhan o'r prosiect ymchwil cychwynnol yn parhau i fod yn gysylltiedig i ddarparu astudiaeth achos hydredol.

Nododd DE y byddai llawer o fuddsoddiad yn yr economi werdd a swyddi yn y dyfodol agos, ac y byddai nifer sylweddol o swyddi yn dod i'r sir oherwydd y buddsoddiad hwn.

O ran y diffyg ymateb gan rai partneriaid, gofynnodd NP yn benodol lle roedd angen cymorth ar JW. Dywedodd JW fod angen gwybodaeth gan Tai Cyngor Sir Penfro yn benodol, a hefyd gwybodaeth gan Iechyd am gynllun anhwylderau cyffredin fferyllfeydd cymunedol. Nododd hefyd fod llai o gapasiti strategol gan aelodau'r grŵp i wneud gwaith nad oedd yn ofynnol yn statudol felly roedd hwn hefyd yn fater a oedd yn fwy cyffredinol. Nid oedd gan y grŵp unrhyw reolaeth dros brif benderfynydd tlodi – sef arian – felly eu rôl fyddai nodi llwybrau allan o dlodi a chyfleoedd a chefnogaeth i bobl wella eu hamgylchiadau eu hunain.

Cytunwyd y byddai e-bost yn cael ei ddosbarthu eto yn enw NP i'r rhai nad oedd wedi ymateb, a byddai'r strategaeth derfynol yn cael ei chyflwyno i'r grŵp i'w chymeradwyo yn y cyfarfod nesaf.

## 8. Unrhyw fater arall

Dywedodd EW mai hwn fyddai ei gyfarfod olaf gan y byddai'n gadael ei swydd gydag Awdurdod Tân Canolbarth Gorllewin Cymru. Diolchodd NP iddo am ei gyfraniadau i'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus.

Nid oedd unrhyw fater arall.

Daeth y cyfarfod i ben am 12pm.

**Cofnod camau gweithredu**

| Rhif | Tud. | Cam gweithredu | Dyddiad targed | Perchennog | Datrysiad |
|---|---|---|---|---|---|
| **1** | 3 | Cyfarfod i drafod fformat adrodd cryno ar gyfer grwpiau prosiect | Cyfarfod nesaf | NP/NE/LR | |
| **2** | 4 | Dosbarthu e-bost yn enw'r Cadeirydd i'r rhai nad ydynt eto wedi ymateb i gais am wybodaeth gan y Grŵp Tlodi | Cyn gynted â phosibl | GB | |